



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

**2004 Rhif 680 (Cy.68)**

**2004 No. 680 (W.68)**

**LANDLORD A THENANT,  
CYMRU**

**LANDLORD AND TENANT,  
WALES**

Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prasio  
Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac  
Arbed) (Cymru) 2004

The Leasehold Valuation Tribunals  
(Fees) (Revocation and Saving)  
(Wales) Order 2004

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) 1997 ("Gorchymyn 1997") i'r graddau y mae'n effeithiol ar gyfer Cymru.

This Order revokes the Leasehold Valuation Tribunals (Fees) Order 1997 ("the 1997 Order") in so far as it has effect in relation to Wales.

Mae Gorchymyn 1997 yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy am achos gerbron tribiwnlys prasio lesddaliadau, yn ddarostyngedig i ostyngiadau ac esemptiadau.

The 1997 Order prescribes the fees payable for proceedings before a leasehold valuation tribunal, subject to reductions and exemptions.

Mae Gorchymyn 1997 yn parhau i fod yn gymwys i unrhyw gais sy'n cael ei wneud, neu achos sy'n cael ei drosglwyddo, gan lys sirol i dribiwnlys prasio lesddaliadau cyn 31 Mawrth 2004.

The 1997 Order continues to apply to any application made, or proceedings transferred by a county court, to a leasehold valuation tribunal before 31st March 2004.

Mae Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) 2004 yn rhagnodi'r ffioedd sy'n daladwy am achos gerbron tribiwnlys prasio lesddaliadau ynglŷn â mangre yng Nghymru, pan fydd y cais yn cael ei wneud, neu'r achos yn cael ei drosglwyddo, ar neu ar ôl 31 Mawrth 2004.

The Leasehold Valuation Tribunals (Fees) (Wales) Regulations 2004 prescribe the fees payable for proceedings before a leasehold valuation tribunal in respect of premises in Wales, where the application is made, or proceedings transferred, on or after 31st March 2004.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi mewn cysylltiad â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r Gyfarwyddiaeth Dai, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ (Ffôn 029 20 823025).

A Regulatory Appraisal has been prepared in connection with these Regulations. A copy may be obtained from the Housing Directorate, the National Assembly for Wales, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ (Tel 029 20 823025).

**2004 Rhif 680 (Cy.68)****2004 No. 680 (W.68)****LANDLORD A THENANT,  
CYMRU****LANDLORD AND TENANT,  
WALES****Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prasio  
Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac  
Arbed) (Cymru) 2004****The Leasehold Valuation Tribunals  
(Fees) (Revocation and Saving)  
(Wales) Order 2004***Wedi'i wneud**9 Mawrth 2004**Made**9th March 2004**Yn dod i rym**31 Mawrth 2004**Coming into force**31st March 2004*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 31B o Ddeddf Landlord a Tenant 1985(a) ac adran 24B o Ddeddf Landlord a Tenant 1987(b), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon it by section 31B of the Landlord and Tenant Act 1985(a) and section 24B of the Landlord and Tenant Act 1987(b), hereby makes the following Order:

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac Arbed) (Cymru) 2004 a daw i rym ar 31 Mawrth 2004.

**Name and commencement**

1. This Order is called the Leasehold Valuation Tribunals (Fees) (Revocation and Saving) (Wales) Order 2004 and shall come into force on 31st March 2004.

**Dirymu ac arbed**

2. -(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), dirymir drwy hyn Orchymyn Tribiwnlysoedd Prasio Lesddaliadau (Ffioedd) 1997(c) mewn perthynas â Chymru.

**Revocation and saving**

2.-(1) Subject to paragraph (2), the Leasehold Valuation Tribunals (Fees) Order 1997(c) is hereby revoked in relation to Wales.

(2) Ni fydd effaith i'r dirymiad ym mharagraff (1) o ran unrhyw gais sy'n cael ei wneud, neu achos sy'n cael ei drosglwyddo gan lys sirol, i dribiwnlys prasio lesddaliadau cyn 31 Mawrth 2004 ynglŷn â mangre yng Nghymru.

(2) The revocation in paragraph (1) shall not have effect in relation to any application made, or proceedings transferred by a county court, to a leasehold valuation tribunal before 31st March 2004 in respect of premises in Wales.

(a) 1985 p.70; cafodd ei mewnosod gan adran 83(3) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf Cyfunddaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002 (p. 15) ("Deddf 2002") ac Atodlen 14 iddi o 31 Mawrth 2004 ymlaen [ ]. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 31B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 ac Atodlen 1 iddo (O.S. 1999/672) ("Gorchymyn 1999"), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(a) 1985 c.70; inserted by section 83(3) of the Housing Act 1996 (c. 52) and repealed by section 180 of and Schedule 14 to the Commonhold and Leasehold Reform Act 2002 (c. 15) ("the 2002 Act") from 31st March. The functions of the Secretary of State under section 31B were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the National Assembly for Wales (Transfer of Functions Order 1999 (S.I. 1999/672) ("the 1999 Order"), to which there are amendments not relevant to this Order.

(b) 1987 p. 31; cafodd ei mewnosod gan adran 86(5) o Ddeddf Tai 1996 (p.52) a'i diddymu gan adran 180 o Ddeddf 2002 ac Atodlen 14 iddi o 31 Mawrth 2004, ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 24B, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn 1999 ac Atodlen 1 iddo. Mae diwygiadau i Orchymyn 1999 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(b) 1987 c. 31; inserted by section 86(5) of the Housing Act 1996 (c.52) and repealed by section 180 of, and Schedule 14 to, the 2002 Act from 31st March 2004. The functions of the Secretary of State under section 24B were, so far as exercisable in relation to Wales, transferred to the National Assembly for Wales by article 2 of, and Schedule 1 to, the 1999 Order, to which there are amendments not relevant to this Order.

(c) O.S. 1997/1852.

(c) S.I. 1997/1852.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

9 Mawrth 2004

9th March 2004

*John Marek*

Dirprwy Lywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Deputy Presiding Officer of the National Assembly

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

---

OFFERYNNAU STATUDOL

---

**2004 Rhif 680 (Cy.68)**

**LANDLORD A THENANT,  
CYMRU**

Gorchymyn Tribiwnlysoedd Priso  
Lesddaliadau (Ffioedd) (Dirymu ac  
Arbed) (Cymru) 2004

---

STATUTORY INSTRUMENTS

---

**2004 No. 680 (W.68)**

**LANDLORD AND TENANT,  
WALES**

The Leasehold Valuation Tribunals  
(Fees) (Revocation and Saving)  
(Wales) Order 2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery  
Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr  
Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

**£3.00**


W26/3/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited  
under the authority and superintendence of Carol Tullo,  
Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of  
Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090893-7



9 780110 908939